# DINESYDD
## Tachwedd

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1981

RHIF 82


# "MAE'N BLESER GEN I AGOR TAFLEN."

Cyrchfan siopa newydd i ddarllenwyr Y Dinesydd yw 'Taflen' yn Heol Conwy - y pen pella o'r dafarn - yn ardal Treganna.

Mae'r adeilad eisoes yn adnabyddus i laweroedd fel canolfan gweithgareddau'r Urdd, man cyfarfod i blant meithrin, cartref Côr yr Aelwyd a'r Parti Dawns a chyrchfan cannoedd o ddysgwyr.

Oherwydd y defnydd helaeth a wneir o'r adeilad mae'r costau cynnal a chadw yn aruthrol o uchel. Mae angen o leiaf £7,000 yn flynyddol i gadw'r blaidd o'r drws a dyna'r rheswm penna dros sefydlu siop lyfrau gyda'r enw bachog 'Taflen'.

Bu is-bwyllgor yn trafod y posibiliadau ers blwyddyn ac o dan gyfarwyddyd is-gadeirydd y Ganolfan, y pensaer David Clement, penderfynwyd addasu stafell y warden yn siop.

Penodwyd y cyfansoddwr caneuon poblogaidd a'r cyn Debot Piwswr, Emyr Huws Jones yn rheolwr. Cafwyd agoriad swyddogol ar nos Fercher, Hydref 14, gan baldorddiwr y bwrdd brecwast, Hywel Gwynfryn.

Yn yr agoriad pwysleisiwyd yr angen am siop lyfrau Gymraeg a fyddai'n ganolfan cyfarfod yng Nghaerdydd yn dilyn cau Siop y Triban bedair blynedd nôl. Dywedwyd mai cynnig gwasanaeth yw'r nôd er mwyn ysgwyddo'r baich o gynnal yr



Y tri anfuddugol yng Nghampau'r Urdd am geisio cadw'n effro drwy'r Seremoni Agoriadol!

adeilad. Penodwyd nifer o gyfarwyddwyr i weithredu'n ddi-dal am fod yr elw wedi ei gyfamodi i'r Ganolfan.

"Does dim arian oddi wrth yr un corff cyhoeddus yn ein cynnal. Mae sefydlu 'Taflen' yn fenter fasnachol y mae'n rhaid iddi lwyddo. Yn hytrach na mynd ar alw trigolion Caerdydd am 'gyfraniad' i gynnal y ganolfan byth a beunydd, gobeithir y bydd yr arian a werir ganddynt yn y siop yn ddigonol" meddai llefarydd ar ran cyfarwyddwyr y cwmni.

Eisoes mae'r siop gyda'i faes parcio hwylus wedi denu cwsmeriaid adnabyddus. O fewn ychydig ddyddiau o'i hagor bu'r digrifwr Stan Stennett yn prynu deunydd ar gyfer gloywi ei Gymraeg ef a 'Bonzo'. Bu'r actores Sue Jones Davies, sydd i'w gweld ar 'Taff Acre' ar hyn o bryd, yn gwario'n helaeth yno, a'r diddanwr a'r cyn-Wlpanwr, Johnny Tudor.

Mae croeso i'r dysgwr a'r Cymro rhugl yn y siop. A chyn y Nadolig ceir derbyniad arbennig yno i lansio llyfr lliwgar o hwiangerddi. Ond mwy am hynny y tro nesaf.

# LLYTHYRAU

Annwyl Syr,

Mae'n ddiddorol cael, fy meirniadu ar yr un tudalen gan ddau sy'n siarad o sefyllfa mor wahanol a'r Fs. Sian Edwards a'r Br. Kynric Lewis.

Nid wyf yn bwriadu bod yn angharedig ond nid yw Sian yn Gristion ac y mae gelyniaeth a sen i'w ddisgwyl o'i chyfeiriad hi. Beiddiaf awgrymu serch hynny ei bod yn di-brisio'n llwyr gyfraniad Eglwys Iesu Grist i ddiwylliant y Cymry a bod cymharu ein gwrthwynebiad ni â'r mini-rygbi ag Iran yr Ayatollah neu Iwerddon Paisley yn chwerthinllyd o gofio ein traddodiad di-drais.

I mi, mae'n bwysicach i ddal pen rheswm â'r Br. Kynric Lewis, aelod parchus o'm heglwys i a mab y Mans. Dylai wybod yn well na chodi bwgan Sabathyddiaeth yng Nghaerdydd. Mae ef wedi byw yma yn ddigon hir i allu tystio nad yw mynychu lle o addoliad ar y Sul yng Nghaerdydd wedi meddwl cadw'r mân reolau, y 'degymu'r mintys', sy efallai ynghlwm yn y gair yn Sir Fôn . Nid Sabyddiaeth o unrhyw fath sydd wedi gwaghau capeli Caerdydd. GLASTWREIDDIO a CHYFLEUSTRA yw'r gwir elynion.

Rwyf wedi gweld a ffoi rhag un ymgyrch i dorri lawr ar y cyfle i addoli ar y Sul. Nid yw Annibynwyr y ddinas yn cwrdd ond dwywaith y Sul a dywedwyd y pryd hwnnw'n hollol glir ac onest mai cyfleustra oedd y rheswm am hyn. Ers peth amser mae'r cwrdd nos yn gorfod cystadlu â'r Sherman oedd yn ei gweld hi ond yn 'gyfleus' i gynnal perfformiadau yn Gymraeg ar nos Sul. Ac yn awr mae'r Clwb Rygbi o dan arweiniad swyddogion sy'n honni bod yn aelodau Iesu Grist yn trefnu cystadleuaeth ag oedfa'r bore.

Dwrdio, wedodd rhywun? Dagrau sy wir eu heisiau wrth feddwl bod ein hetifeddiaeth o addoliad rhydd yn cael ei dibrisio i'r fath raddau, yr hawl a sicrhawyd inni trwy waed ac aberth. Aberthir yr eglwys nawr er cyfleuster i'r rhai sy'n ei darganfod yn anodd i drefnu ymarfer rygbi ar amser a diwrnod gwahanol.

Beiddiaf ddweud eto nad Sabyddiaeth yw'r gelyn yn hanner olaf yr 20fed ganrif ond cyfleustra a glastwreiddio.

Ethni Jones.

Annwyl Olygydd,

Da yw deall fod Siân Edwards yn cydnabod fod gan gapeli Caerdydd achos cwbl deilwng i frwydro drosto. Y mae yn ymddangos yn debyg fod y Clwb Rygbi am rwydo y plant i fewn i'w mympwyon annheilwng cyn i'r plant ddod yn ddigon o oed i ddewis drostynt ei hunan. Oni fyddai yn fwy teg adael i'r plant ddod i oed i ddeall beth sydd yn iawn i'w wneud ar y Sul a beth nad yw yn iawn, sef, cadw'r gorchmynion neu ei hanwybyddu. Dweud y mae'r Clwb Rygbi y medrai y plant fynd i'r Ysgol Sul ar ol bod yn chwarae, ond pa blentyn allai ddodi ei feddwl ar wers yn yr Ysgol Sul ag yntau wedi gwneud gwrhydri ar y cae rygbi yn y bore.

I ni yn ffodus iawn fod gyda ni chwiorydd yn ein gwahanol gapeli sydd yn barod fel Ethni i frwydro i'r eithaf dros gadw yn sanctaidd y dydd sabath.

Llewelyn Morgan, Ebeneser.

---

GENI

Ganwyd merch fach i Tony a Cissian Rees, Heol Pencisely, Llandaf. Llongyfarchiadau i'r ddau a chroeso mawr i Lowri.

*******************************

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

*******************************

Newyddion trist a hapus o Ganada.

......

Cydymdeimlwn yn fawr iawn a Mr. Gweirydd Thomas a gollodd ei chwaer, Joanna, mewn damwain car yng Nghanada. Roedd yn byw yn Edmonton. Alberta. Bu ar ymweliad yn ddiweddar iawn â Chaerdydd ac â Chymru ac mae'n anodd iawn sylweddoli iddi gael ei chymryd mor ddisyfyd. Yn ddiweddar iawn collodd Mr. Gweirydd Thomas ei chwaer arall Mrs. Gwilym Rees, ac mae bwlch eto nawr i'w deimlo yn y teulu yng Nghaerdydd.

Bedyddiwyd ŵyr i Mr. a Mrs. Richard a Beti Wyn Jones yn Heol y Crwys pan fu Steffan, eu mab, yn ôl o Ganada ar ymweliad dro'n ôl a'r Parch. Lodwig Jones yn gwasanaethu. Roedd pawb wrth eu bodd yn gweld y teulu sy bellach wedi'u gwasgaru o Gaerdydd yn ôl gyda'i gilydd yn eu hen gynefin

---

Llongyfarchiadau i Keith a Delyth Shapey ar enedigaeth eu mab Islwyn, Jonathan. Mae Keith yn gweithio gyda'r Bwrdd Dur a Delyth yn gantores o fri.

---

Cydymdeimlwn â Heulwen Jones (Mainwaring gynt) ar golli'i thad ac yntau newydd ymddeol o fod yn Ficer tu hwnt o weithgar ac yn adnabyddus i lawer y tu allan i'r Eglwys ym Maesteg. Cydymdeimlwn â'r holl deulu yn eu hiraeth.

---

# GWERINIAETHWYR YN Y DDALFA

Rhwng 11.00a.m. ddydd Llun, Hydref 26ain ac 11.00p.m. y noson ganlynol, dygwyd o leiaf ddwsin o bobl i'r ddalfa yn ardaloedd Caerdydd a Phontypridd a'n cadw yno am gyfnodau yn amrywio o ddwyawr i bron 30awr mewn un achos. Gydag un eithriad roedd y bobl hyn i gyd yn aelodau o Fudiad Sosialaidd Gweriniaethol Cymru, mudiad gwleidyddol cyfreithlon a chwbl agored - ond mudiad a oedd wedi beiddio datgan ar goedd ei wrthwynebiad i'r ymweliad brenhinol.

Daeth nifer o'r rhain i gysylltiad ag Ymgyrch Cymru dros Hawliau Gwleidyddol a Sifil sydd wedi bod yn ymholi i'w hachosion. Yr un oedd patrwm yr holi ym mhob achos: ar ôl gofyn iddynt i roi cyfrif o'u symudiadau dros y penwythnos, aeth yr heddlu ymlaen i'w holi'n fanwl ynglŷn â'u daliadau gwleidyddol, eu hagwedd tuag at y frenhiniaeth, enwau cyfeillion a chydnabod mewn mudiadau gwleidyddol eraill ac ati. Dyma enghraifft amlwg arall o'r hyn a ddigwyddodd ar raddfa ehangach yn *Operation Tân* y llynedd, sef yr heddlu'n casglu gwybodaeth wleidyddol tan gochl ymchwilio i drosedd. Afraid dweud na ddygwyd yr un cyhuddiad yn erbyn yr un o'r bobl hyn i'w cysylltu â'r mater yr honnai'r heddlu eu bod yn ymchwilio iddo.

Y mae'n destun pryder mawr i YCHGS fod yr heddlu wedi ymddwyn fel hyn unwaith eto gan fynd â phobl i'r ddalfa, eu cadw yn erbyn eu hewyllys am gyfnodau maith (gan wadu eu bod yn eu cadw mewn rhai achosion) a chan wrthod mynediad i'w cyfreithwyr. Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus ar y testun *Erlid Gwleidyddol gan Heddlu De Cymru* yng Ngholeg y Brifysgol nos Iau, Tachwedd 5ed am 7.30p.m. Y siaradwyr fydd John Jenkins a Robert Griffiths (dau o'r bobl a restiwyd) a Phil Thomas, YCHGS - croeso i bawb sydd yn poeni ynglŷn â hawliau'r unigolyn yng Nghymru. (Adroddiad llawn y tro nesaf.)

# A LLYTHYRAU

Fel y cofia rhai miloedd o ddarllenwyr y papur , ymddangosodd y tameidiau isod yn y rhifyn diwethaf.

Rhoddwn ar y dudalen hon ddetholiad o'r atebion a ysgogwyd gan y manion hyn.

1. Pam mae Cymry Cymraeg ifanc yn anfon eu plant i ysgolion Cymraeg ac yn siarad Saesneg a'i gilydd yn y cartref bob amser.

2. Sut mae Sais di-Gymraeg yn gallu bod yn gadeirydd ar gymdeithas rhieni ysgol Gymraeg.

3. Sut y dewisir rhai gohebwyr chwaraeon "Cymraeg" eu hiaith i labyddio'r iaith un Sadwrn ar ol y llall ar radio Cymru.

4. Beth sydd wedi digwydd i'r Clwb Cymraeg yma yng Nghaerdydd.

5. Pam fod rhaid agor siop lyfrau Cymraeg arall yng Nghaerdydd ac 'Oriel' yn cynnig gwasanaeth mor arbennig.

6. Pam fod capel y Crwys yn erbyn mini-rygbi ar fore Sul pan fo un o'r blaenoriaid yn rhedeg am dros bedair awr mewn marathon - ie ar y Sul.

7. Pam mae pobl yn dal i ddarllen yr hen bapur diflas yma?

Ateb i'r sawl sydd ddim yn dallt - Dinesydd Hydref.

1. Am yr un rheswm fod Cymry canol oed yn siarad Saesneg o flaen y capel cyn gwrando ar bregeth Gymraeg oddi mewn.

2. Am fod Sais yn barod i fod yn ben ar bopeth.

3. Nid ysgolheigion yw Bois y Bel.

4. Dal i ddisgwyl.

5. Am nad oes paned i'w gael yn yr Oriel.

6. Rhedeg ar y Sul i wneud arian ond chwarae rygbi er mwynhad.

7. Wn i ddim. Disgwyl pethau gwell i ddyfod efallai.

Annwyl Olygydd,

Cyfeiriaf at y pwt yn y Dinesydd o dan y teitl 'Dw. i ddim yn Dallt'.

Nid ydwyf yn siwr at beth mae eich gohebydd di-enw yn cyfeirio ato wrth sôn am Sais di-Gymraeg yn Gadeirydd Cymdeithas Rhieni Ysgol Gymraeg, ond gan fod Cadeirydd di-Gymraeg gennym ni yn Ysgol Bryntaf tybed mae cyfeiriad slei yw hyn?

Nid ydwyf yn fodlon meddwl fod unrhyw Gymro neu Gymraes yng Nghaerdydd mor gul ei feddwl na all groesawu penodiad fel hwn.

Cymro di-Gymraeg o Gaerdydd yw ein Cadeirydd newydd ni. Mae tri o'i fechgyn ef yn cael eu haddysg trwy'r Gymraeg yn Ysgol Bryntaf. Wrth rhoi lle teilwng yn ein Cymdeithasau Rhieni i'r rhieni di-Gymraeg, yr ydym yn sicrhau dyfodol yr iaith trwy'r plant.

Fe gafodd ein Cadeirydd ei enwebu, eilio a'i ethol yn ddemocrataidd gan y rhieni sydd a'u plant yn mynychu'r ysgol ac felly mae ein cynrychioli'r teuluoedd sy'n rhan o'r Gymdeithas Rhieni. Rydym ni yn Ysgol Bryntaf yn ffodus iawn i gael y Cymro yma fel ein Cadeirydd. Rydym yn falch i'w gael am ei fod yn ddyn deallus sydd â meddwl clir i'n harwain trwy'r frwydyr nesaf i gael ysgol teilwng i'n plant.

JEAN O. EVANS,
Ysgrifenyddes Cymdeithas Rhieni Bryntaf.

---

Yn yr adroddiad ar Y Gymanfa Gofiadwy yn Rhiwbeina, cyfeiriwyd at Gyfeiles parti Côr Adran yr Urdd, Rhiwbeina, fel Margaret Davies. Enw'r Gyfeiles yw Helen Davies sy'n bymtheg oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Llanhari. Ymddiheurwn i Helen am y camgymeriad hwn ar ein rhan.

---

Annwyl Olygydd,

Yn rhifyn mis Hydref o'r Dinesydd darllenais 'Beth sydd wedi digwydd i'r Clwb Cymraeg yma yng Nghaerdydd?' mewn colofn ddienw. Gaf i awgrymu i'r awdur y dylai ddarllen y Dinesydd (gweler adroddiad yn rhifyn Gorffennaf) ac hefyd y dylai fod wedi ymuno â Chymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd (C.C.C.C.) am £1. Ysgrifenner at Nic ap Glyn, 135 Keppoch St., Plasnewydd.

Y newyddion am y Clwb yw hyn : er dod o hyd i adeilad, paratoi cynlluniau a chael caniatad cynllunio bras cafwyd oedi o du'r perchnogion a ymddengys yn chwit-chwat iawn yn eu hawydd i werthu'u heiddo. Cymaint fu'r oedi'n wir fel ein bod unwaith eto'n chwilio am adeilad addas i'w droi'n glwb. O leiaf mae gennym gyfalaf o £10,000 yn gefn inni y tro hwn, ond wrth gwrs mae angen mwy eto.

Mae C.C.C.C. yn trefnu rhagor o nosweithiau gwerin a dawnsfeydd eto eleni. Yn barod gwnaed trefniadau gyda Phenderyn (23 Hydref), Aly Grogan (6 Tachwedd), Tegwyn Ifan (20 Tach.) Plethyn (4 Rhagfyr) ac Ar Log (11 Rhagfyr) ac fe hysbysebir y rhain trwy ein cylchlythyr (i'n 600 aelod), Radio Cymru a Chaerdydd a'r Dinesydd. Cynhelir cyfarfodydd cyffredinol C.C.C.C. yn rheolaidd hefyd pan gyflwynir unrhyw newyddion i'r aelodau.

Gaf i apelio at unrhywun sydd heb ymaelodi i wneud hynny, fel y byddwn yn gallu mynd at y bragwyr gyda llyfr aelodaeth llawn.

Hywel Merfyn,
Swyddog Cyhoeddusgrwydd
C.C.C.C.

---

Dymunir yn dda i Garmon, mab bychan Michael ac Ethni Jones, sydd yn yr ysbyty yng Nghasgwent. Bydd Mererid a Gwenfair yn falch o'i weld gartref yn fuan.

---

YSGOL FEITHRIN Y WAUN

NOSON CAWS, GWIN A CHÂN

YNG NGHANOLFAN GYMDEITHASOL Y WAUN
(King George Vth Drive)

NOS SADWRN, 28 TACHWEDD, am 8 o'r gloch

gyda: DAFYDD IDRIS ac ISLWYN MORGAN

Tocynnau: £1.75. Yr elw at yr Ysgol Feithrin.



Pwy wyt ti'n galw'n Weiran Gaws?

# DAVID JONES
# ARLUNYDD A BARDD

DAVID JONES 1895 - 1974

.........

Meddai David Jones, yr artist a'r awdur, ar alluoedd dychmygol eithriadol iawn. Disgrifiodd T.S. Eliot 'In Parenthesis', ei lyfr sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd cyntaf, fel gwaith athrylith; dywedodd W.H. Auden am ei ail gyfrol 'The Anathemata', mai honno oedd y gerdd hir orau a gyfansoddwyd yn ystod y ganrif hon. Ond ymhell cyn i David Jones gyhoeddi llinell o farddoniaeth yr oedd yn adnabyddus fel artist - am ei waith dyfrliw ac engrafu yn fwyaf arbennig.

Erbyn 1930 arddangoswyd ei waith ymhlith pobol fel Ben Nicholson, Barbara Hepworth a Henry Moore, er na ddilynodd nhw i faes gwaith haniaethol.

Yn ei farddoniaeth, ei ddyluniadau a'i arysgrifau ceisiodd roddi mynegiant i'w syniadau am y berthynas rhwng mater ac ysbryd, a lle a swyddogaeth dyn ym myd amser.

Ganed David Jones yng Nghaint a hanai o deuluoedd yng Nghymru, Lloegr a'r Eidal. Ymddiddorai mewn gwahanol themâu yn ymwneud â chwedlau Arthuraidd, llên gwerin a mytholeg Gristnogol. Ymhlith y dylanwadau trwm a fu ar ei waith creadigol yr oedd ei ffydd Gatholig, ei brofiadau ysgytwol yn y Rhyfel Byd cyntaf a'i ddiddordeb dwfn yn ei gefndir Cymreig a llenyddiaeth Cymru.

Darlunir y themâu a'r dylanwadau hyn mewn arddangosfa fawr yn yr Amgueddfa Genedlaethol o 31 Hydref tan 13 Rhagfyr.

Detholwyd y gweithiau gan Paul Hills, Darlithydd ym Mhrifysgol Warwick, a chynwyswyd dyluniadau a pheintiadau sy'n cynrychioli'r gwahanol gyfnodau yn nhŵf yr artist - o'r 'Arth' a wnaed ganddo yn 1902 pan oedd yn saith oed, i 'Annunciation in a Welsh Hill Setting' a wnaed yn 1963. Ceir detholiad o'i engrafiadau ynghŷd â rhai cerfiadau nas arddangoswyd o'r blaen. Y mae cynrychiolaeth gref o'i arysgrifau a chynhwyswyd brasluniau o'i lawysgrifau 'In Parenthesis' ac 'The Anathemata'. Daw nifer sylweddol o'r gwaith o gasgliadau preifat.

Hon yw'r arddangosfa fwyaf o waith yr artist ers pan fu farw yn 1974 ac fe'i gwelwyd gyntaf yn Oriel Tate, Llundain.

**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**
TRWYDDED PRESWYL




# DAVID JONES

Arddangosfa o waith yr artist

## Amgueddfa Genedlaethol Cymru
## Tan 13 Rhagfyr, 1981

Yn ystod ei yrfa artistig hir ymddiddorodd y bardd a'r artist mewn nifer o wahanol themâu — chwedlau, llên gwerin a mytholeg. Dylanwadwyd yn drwm arno gan ei brofiadau yn y Rhyfel Byd cyntaf, ei ffydd Gatholig a'i gefndir Cymreig.

Darlunir y themâu a'r dylanwadau hyn yn yr arddangosfa o'i beintiadau, dyluniadau, arysgrifau, engrafiadau a cherfiadau. Hon yw'r arddangosfa fwyaf o'i waith er pan fu farw saith mlynedd yn ôl.

*Arysgrif: 'Exiit Edictvm', 1949*

# MAES Y PLANT

(gan fyfyrwyr y drydedd flwyddyn, Coleg Addysg Cyncoed)

Helo blant,

Dyma chi wedi bod yn ôl yn yr ysgol ers rhyw chwe wythnos a dail y coed yn newid i liwiau'r Hydref. Ffordd dda i ddefnyddio'r dail amryliw yma yw gwneud llun neu 'collage' o aderyn fel y gwdihw efallai. Efallai y gallwch ddefnyddio rhai o ffrwythau'r tymor fel llygaid i'r aderyn, e.e. cnau.

............

Ydych chi'n gwybod pwy yw'r deg person yma. Un cliw bach, maent i gyd a rhywbeth i'w wneud gyda chwaraeon yng Nghymru.

1. AYR RAVELLG
2. AVIDD ROOMEB
3. AID AVIESD
4. TEVES ENWICKF
5. ERRYT OLMESH
6. LANA ONESJ
7. RIANB LYNNF
8. OEYJ ONESJ
9. LANA HILLIPSP
10. RYWMORB ILLIAMSW

............

Rhywbeth bach yn arbennig i'r merched. Ond cofiwch byddwch yn ofalus iawn wrth ddefnyddio'r ffwrn neu gofynnwch i Mami helpu.

Pyramidiau Cneuen Goco

Bydd eisiau

Cneuen goco (o baced)
Llaeth wedi ei dewychu (condensed milk)

Cymysgwch ddigon o gneuen goco i'r llaeth fel bod y gymysgfa yn weddol anystwyth. I'w cael yn siap pyramid rhoddwch y gymysgfa mewn cwpan wy, eu troi drosodd wedyn ar dun wedi ei rwbio â saim.

Pobwch y pyramidiau yn araf mewn ffwrn a'u gadael yno nes y byddant wedi setio.

............

Jôc y Mis

Dyn: Ow, ow, mae 'na granc newydd wasgu bawd 'y nhroed i.

Doctor: Pa un?

Dyn: Wn i ddim, mae pob cranc yn edrych 'run peth i mi.

# Y CALENDR

Tachwedd

4, Mercher, Cymdeithas Heol y Crwys, Noson Guto Ffowc i'r teulu.

8, Sul, Theatr y Sherman, Drama Bernard Evans, 'Syrcas'.

11, Mercher, 8 p.m. Tŷ'r Cymry, Cymdeithas y Dysgwyr, Siaradwr: Iolo Walters.

13, Gwener, Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd yn Festri Bethel, Penlline Rd., 7.30 p.m. 'Hawl i Holi' gyda'r Dr. Harri Pritchard Jones, Mrs. Bethan Roberts, Mr. Malcolm Thomas a Mrs. Beti Wyn Davies.

13, Gwener, Swper a Thwmpath Dawns, Festri Heol y Crwys, 7.30 p.m. Galwr: Gwilym Roberts


## MWY AR DUDALEN 12


18, Mercher, Cymdeithas Heol y Crwys, Noson yng nghwmni'r actores Rachel Thomas.

28, Bore Sadwrn, Bore Coffi gyda stondin teisennau cartref, 10.30 a.m., Eglwys St. Andrews, Caerffili Rd.

Rhaghysbysiadau

Ionawr 29, 1982, Ysgol Gyfun Radyr, Noson y Santes Dwynwen, Tocynnau oddi wrth Kay a Dai Clements, Radyr 842028.

Mehefin 26, 1982, Ffair Haf Glantaf.

DIARFOGI : MATER PWYSICA' EIN DYDDIAU.

Gwelodd y deunaw mis diwethaf gynnydd rhyfeddol yn lefel y Protest yn erbyn gosod arfau niwcliar ar ddaear Ewrop. Dechreua'r Ewropeaid amau a ddylent fod yn y rheng flaenaf yn y strategiaeth niwcliar Americanaidd presennol. Mae'r arfau ymosodol a sicr o'u targed, rhai fel y taflegrau Cruise a'r S320 o Rwsia wedi dwysau'n ofnau, rhai a fu yng nghwsg tra y disgwyliem am ychydig o symud yn y trafodaethau ar ddiarfogi. Ai Ewrop fydd y theatr ryfel lle yr ymleddir y Trydydd Rhyfel Byd?

Dechreuodd rhai holi a oes hawl gan y rhai, 'chydig ydynt, sydd a'u bysedd ar y botwm tynghedfennol, yn y Gorllewin a'r Dwyrain, a ddylent fod a thynged miliynau o bobl gyffredin yn eu dwylo.

Mae'r gronfa o ragor na 53,000 o arfau niwcliar yn bygwth difodiad drwy ddamwain, neu gamgymeriad mecanyddol neu drwy gam ddefnydd. Mae'r swm arswydus a werir bob blwyddyn ar ychwanegu at y storfa yn anfoesol pan gofiwn am rai afiach a thlawd y Trydydd Byd. Rydym yn gynnil arbed chydig geiniogau ar wariant i wella ac yn afradu miliynau er hyrwyddo ei ddifa.

Aeth y pwer o ddwylo'r gwledydd sofran, democrataidd, i ddwylo ychydig dethol, militaraidd, rhyngwladol. Mae'n gwasanaethau cudd a'r cynhyrchwyr arfau yn ymddangos fel pe taent yn tanseilio yr union ryddid y ceisiwn ei ddiogelu rhag y Rwsiaid.

Ym Mhrydain, mae'r methiant i ddylanwadu ar gwrs y drafodaeth ar ddiarfogi amlochrog yn arwain at awydd cryf i ymwrthod yn llwyr ag arfau niwcliar. Beth bynnag a ddywed y gwleidyddwyr, os na lwydda diarfogi amlochrog yn fuan, yna bydd diarfogi unochrog yn fater hollbwysig mewn etholiad, a hynny ar gais y werin.

Mae'r ras arfau yn ein harwain i ddibyn hunan-laddiad. Rhaid troi yn ol, pawb, gobeithio, ond os na wna'r dyrfa, yna i fi, chi - unigolion i wneud hynny.

Martin Evans, Llandaf.

(Am ragor o fanylion cysyllter a Martin Evans, yn 26 Howells Crescent, Llandaf. Rhif ffôn: 563679).

# Y GOLOFN GAIN

## gan ARFON

Un o'r rhai mwyaf parod ei gymwynas yw Gilbert Ruddock. Cawsom y fraint o gyhoeddi sawl cerdd o'i eiddo yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, ac mae'n diolch yn fawr iddo am ei deyrngarwch. Mae'n ddiddorol sylwi amled y bydd bywyd ei deulu bach yn ei ysgogi i ganu. Felly'r tro hwn hefyd.

LLENWI'N GOLWG

Prynhawn Sul o Ionawr oer
gerbron y tân,
a'r haul yn taenu
gwin tenau gwanwyn
dros wal a drws a choed
tu faes i'r tŷ.
Dwy ferch fach yn chwarae
yn yr ardd -
uchel sŵn llawenydd.

Un ferch fach yn dod i'r tŷ
yn fochgoch braf,
wedi cael ei gwala am y tro.
Ond am y llall - dim sôn.
Distawrwydd annaturiol yn ymdreiddio i bob man
nes peri anesmwytho,
drwgdybio,
ofni, braidd.

Ble'r oedd y fechan, tybed?

Yna, heb rybudd,
yn nofio'n ysgafn yn yr awyr glir,
yn fydoedd sgleiniog, lliwiog llawn
balwniodd haid o swigod sebon sionc a llon
heibio i ffenest y gegin,
gan lenwi'n golwg i gyd.

Rhaid bod y chwythwr anwel
yn ddigon diogel yn rhywle.

Gilbert Ruddock.

Efallai nad yw enw Llewelyn Morgan mor gyfarwydd i ddarllenwyr y golofn, ond mae'r hen fonheddwr hwn yntau yn aelod ffyddlon ac annwyl gennym yn Ebeneser. Ymddeolodd i'r Felin Fach yn yr Eglwys Newydd ar ôl oes o ffermio yn Sir Gâr. Mae'n hen englynwr profiadol. Cyhoeddodd ei englyn i'r Tybaco yn 'Y Llusern' flwyddyn yn ôl, ond mae'r englyn i'r Llifogydd yn gweld golau dydd am y tro cyntaf yn y golofn hon. Diolch yn fawr iddo am y ddau.

TŶBACO

I ŵr craff gwastraff i gyd - a'r poeri
  Ar y pared rhydlyd;
Rhyw gnoi cil ar gawn celyd,
A sawr mwg yn suro 'myd.

LLIFOGYDD

Ail i ddilyw chwalai ddwylan - rhwyfodd
  Trwy gartrefi diddan;
A llu'r maes mewn llawer man
Yn cilio i uwch ceulan.

Llewelyn Morgan

Ac yn awr, dyma gyhoeddi cystadleuaeth englyna ar gyfer rhifyn Rhagfyr. Y testun yw :

Y STABL neu Y BEUDY

Anfonwch eich englynion ataf yn 31, Heol Don, erbyn dydd Gwener Tachwedd 20fed. Bydd tocyn llyfr gwerth £5 yn disgwyl yr englyn gorau. Nawr 'te I.J., G.G., A.O., Ll.M., W.D., J.W., E.L., G.R., D.J., E.J.E., A.C., A.T.I. Hai ati!



Einir, gwraig Arfon, yn derbyn copi rhwymedig o'r englyn o waith Arfon a ddarllenwyd ar raglen Hywel Gwynfryn beth amser yn ol.

Ofer aur ag ofer arian - ofer
  Hefyd popeth diddan;
Ofer cwsg ag ofer cân,
Ofer yn wir yw'r cyfan.

Ofer ddawn i farddoni - a gefais
  Ac ofer yw 'ngherddi;
Ofer pob dim roed imi
Yn y byd hwn hebot ti.

MERCHED Y WAWR, CAERDYDD

Bu'r cyfarfod cyntaf o'r gangen yn un hwyliog a difyr.

Daeth Côr y Ganolfan atom i'n diddannu ag amrywiaeth o eitemau.

Swynwyd ni gan eu cyflwyniad o ganeuon hen a newydd. Daeth y ddeuawd 'Hywel a Blodwen' a gwen foddhaus i wyneb sawl un ohonom. Cawsom adroddiad lliwgar o 'Dan y Wenallt' i gyfeiliant gitar ynghyd a unawdau swynol eto i gyfeiliant y gitar. Er nad oedd safon yr actio mor uchel a safon y canu, roedd yn amlwg oddi wrth y curo dwylo brwd fod y sketches a'r jocs wedi cael eu gwerthfawrogi!

Noson lwyddiannus iawn fu hon a gobeithio y bydd cystal cynulliad yn ein holl gyfarfodydd weddill y flwyddyn.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, yr 2il o Dachwedd pryd y bydd Cangen Gwaelod y Garth yn ymweld â ni.


*PARTI NADOLIG*
*Y DINESYDD*
Neuadd Yr Eglwys, Llandaff
*Nos Wener, 18 Rhagfyr*
8.00p.m. £2.00
*DEWCH I GAEL HWYL*
Ffôn: 753625, 563588

# UNWAITH ETO 'NGHYMRIC ANNWYL

Ydi bobl, mae o wedi dechrau unwaith yn rhagor. Tydi pnawn Sadwrn ddim yr un trwy'r haf heb y brwydro a'r cicio, y briwiau a'r chwysu, y bloeddio a'r cusanu. Sôn yr ydw i wrth gwrs am y tymor pêl droed newydd. Daeth eto yn amser glanhau'r esgidiau a anghofiwyd yng ngornel dywyllaf y garej ers mis Ebrill - y carai yn syrthio'n llwch wrth gael ei dynnu'n dyn i gau'r esgid, a phob pwyth ynddynt wedi hen bydru o ganlyniad i fwd a lleithder y tymor a fu. Y prysuro wedyn i gyrraedd siop chwaraeon yng nghanol y ddinas i fanteisio ar y 'Sales' bondigrybwyll a darganfod nad oes yr un o'r rhai rhataf ar gael sy'n ffitio'n gyfforddus. Gwario mwy nag a feddyliwyd, a hynny dan drwyn y wraig sy'n chwythu bygythion mai rhain ydi y pâr olaf sydd i gael eu prynu - mi fydd yn domino arnai pan fydd y pâr yma'n malu. Gaddo glanhau yr esgidiau wedi pob gêm y tymor hwn, a hyd yn oed rhoi 'chydig o bolish arnynt - gaddo unrhywbeth yn wir, i gael tawelwch.

Roedd criw da wedi bod yn ymgasglu i ymarfer rhyw dair wythnos cyn dechrau'r tymor, ac roedd yn argoeli'n dda ac yn galonogol dros ben i weld cynifer o waed ifanc yn mentro i'r arena eleni. Yn anffodus, yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma, digon distaw ydi'r byd ricriwtio wedi bod, er inni gael cysylltiadau clos iawn gyda chwmni hysbysebu masnachol ym mherson Gareth 'Royds' Huws. A thra ein bod yn sôn am y cymeriad hynaws yma, dyma estyn croeso arbennig iddo unwaith yn rhagor i'n plith. Mae'n amlwg fod y cyffuriau yn gweithio yn iawn gan nad ydio'n edrych ddim ond blwyddyn yn hŷn nag oedd o ddechrau'r tymor diwethaf. Mae disgwyl eiddgar am ei adroddiad o weithgareddau Cynhadledd yr Henoed a gynhaliwyd ym Mhorthcawl yn ddiweddar. (Methodd Cen Cartŵn a bod yn bresennol yn y Gynhadledd o achos iddo orfod wynebu Tribiwnlys Pensiynnau yn ystod yr wythnos honno - mwy am yr achos hwnnw rhywbryd eto).

Wedi'r gwamalu, beth am ychydig o hanes y bêl gron ar y meysydd chwarae. Ar ddydd Sadwrn y 12fed o Fedi, y gêm gyntaf yn erbyn cewri St. Albans ar faes Pontcanna. Gêm gwbl ddifflach oedd hon a'r ddau dîm yn dangos arwyddion o hir segurdod yr haf - yr esgyrn yn clecian wrth daro'r bêl, y gwynt yn fyr erbyn hanner amser, a'r cyhyrau yn dynn ymhell cyn y diwedd. Un gôl pob un oedd y sgôr wedi awr a hanner hirach nag arfer, a Martin Hopwood yn twyllo pawb gan gynnwys ei gyd-chwaraewyr cyn taro'r bel i'r rhwyd am gôl gyntaf y tymor. Prin funud oedd ar ôl cyn y chwiban olaf pan lwyddodd St. Albans i lefelu'r sgôr.

Sadwrn gwlyb rhyfeddol oedd Medi'r 19fed - disgynnai'r glaw yn haenau dibendraw ar y glewion ar y maes yn Nhongwynlais. Er hynny ni lwyddodd y dilyw i ddisychedu awch y timau i geisio gwneud gêm ohoni. Yn wir o fewn rhyw ugain munud, roedd Tongwynlais dair gôl ar y blaen, ond cyn diwedd yr hanner cyntaf roedd Clwb Cymric wedi rhwydo ddwy waith. Cic gosb o'r smotyn gwyn gan Rheon (o leiaf ddwy stôn yn drymach na'r llynedd) oedd y gyntaf, a bollten o ergyd o ben Gareth Huws oedd yr ail gôl - gôl nad ydyw wedi sgorio ei chystal erioed. Cafwyd trydydd gôl arbennig gan Len, unwaith eto o gic gornel, ac yna, y doethur barfog tal, Pwt, yn sgorio gem o gôl o gongl y blwch cosbi. Yn anffodus, nid dyma ddiwedd y stori, a gofid ydi gorfod cofnodi mai 6 gôl i 4 oedd y sgôr derfynnol - i Dongwynlais.

Medi 26ain ac roedd naws boliticaidd i'r gêm hon yn erbyn Toriaid Rhymni ar faes Pontcanna. Roedd cyfeiriad y gêm yn newid o'r Chwith i'r Dde trwy gydol yr amser, ond cyn hanner amser sgoriodd Wyn ei gôl gyntaf y tymor hwn. Yn groes i'r graen, dyna dro pedol gan hogia Thatcher, ac yn y diwedd, er i'r pôls piniwn ddarogan yn wahanol, y nhw a orfu.

Toriaid Rhymni 3, Clwb (Cenedlaetholwyr Cymric 1. Ddim yn gwybod 96.

Tywydd digon diflas oedd yn croesawu mis Hydref i'n mysg hefyd, ac ar yr 2il o'r mis, tramwyo i ganol byd papur Wiggins Teape fu'r hanes. Dyma faes bendigedig i chwarae arno, yn sicr y gorau i mi chwarae arno yn y cyffiniau yma - gwellt glas a'r llinellau a'r goliau gwynion yn wrthgyferbyniad trawiadol - toes dim eisiau gwell i ysgogi dyn i chwarae pel droed. Siomedig fu'r ymateb serch hynny, dwy gôl ar ôl wedi chwarter awr, a'r sgôr yn lefel ar yr hanner. Dwy gôl yr un oedd hi ar y terfyn hefyd, Wyn yn sgorio o'r smotyn gwyn, a Rhodri yn penio'r ail i gongl y rhwyd. Calonogol oedd gweld perfformiadau arbennig gan Richard a Haydn, y ddau yn eu tymor cyntaf, disgyblion ysgol Rhydfelen, ond sydd â'u gwreiddiau yn ddwfn yn nhir Sir Gaernarfon fel finnau.

Gêm gwpan oedd hi ar Hydref 10fed, yn erbyn pencampwyr prif gynghrair (Premier) y llynedd, sef Grange Quins. Bydd yn ddigon i ddweud mai dod yn ail a wnaethon a'r gwahaniaeth rhwng safon y ddau dîm yn eglur o ystyried y sgôr, wyth gôl i ddim. Taw piau hi ynte!

Dyna'r stori felly, dau bwynt siomedig o'r mis cyntaf yn nhymor 1981/82. Mae gwell i ddod, gobeithio! Mae'r ail dîm heb yr un pwynt hyd yma ond mae dycnwch y bechgyn, yn ifanc a dim mor ifanc (Rhys Fôn) yn werth ei edmygu. Rhaid i'r criw ifanc gael eu trwytho yn y gêm - mae'r gallu ganddynt yn ddios, profiad sydd yn angenrheidiol, ac amser yn unig all gyflawni'r angen yna.

Mae angen llongyfarch aelodau'r tîm am eu gwaith mewn meysydd eraill hefyd:
Richard Parsons ac Andrew am briodi (ddim gyda'i gilydd!)
Rob Sanger am ddod yn 380fed yn ras Farathon Caerdydd mewn $3\frac{1}{2}$awr.
Huw Dafis am ddechrau gweithio fel cyw cyfrifydd.
Martin Hopwood am ein gadael (mae ym Mrwsel tan y Nadolig ar gwrs arbennig dan nawdd y Farchnad Gyffredin)

Tydi Clwb Peldroed Cymric ddim yn dymuno ymuno yn y drafodaeth ar y busnes chwarae 'mini-rygbi' ar y Sul. Beth bynnag, os hoffai blaenoriaid unrhyw gapel yng Nghylch Caerdydd ymuno yng Nghystadleuaeth peldroed saith-bob-ochr rhyng-gapelog am Gwpan Thomas Charles o'r Bala, y gemau i'w chwarae rhwng oedfa'r pnawn a'r hwyr, yna byddwn yn falch o glywed ganddynt. Os bydd y fenter yn llwyddiant, byddem yn fodlon trafod y syniad o gael tîm cylch capeli Caerdydd i herio timau Henaduriaeth Llŷn ac Eifionydd ac yn y blaen. Beth amdani?

Cofiwch am yr ymarfer bob nos Fawrth, 7.30 p.m. yn Ysgol Radyr. Croeso i bawb.

Rhodri Gwynn Jones.

---

Y CLWB RYGBI A'R GYMRAEG !

O'r Western Mail, 28 Hydref, 1981 :

> Eventually, rather than risk abandoning the game, Mr Evans gave his word that no Welsh would be used until the final whistle.

Beth yw barn y Clwb Peldroed??

# COLOFN Shân Emlyn

Toes 'na betha rhyfedd yn digwydd weithiau! A finna newydd ddod yn ôl o Aberystwyth ar ôl gofalu am Nain, y chwithdod o chwalu Bryneithin, a'r oriau o sawru hanes rhamantus achau Owen - darllen am David Charles ac O.M.Edwards mewn llyfr a sgwennodd Nain i Mari gan roi hanes pob crair yn y tŷ. Rhyfeddu o'r newydd pa mor fyw yn wir y mae creiriau Bryneithin. Er mwyn ceisio ymlacio wedi'r heldrin, dyma benderfynu eistedd ganol bora i wrando ar 'Merched yn Bennaf' gan dybio y byddai hynny o help i mi ddod yn ôl i normalrwydd bywyd. Ymysg yr eitemau roedd Mari Ellis yn sôn am Ellen Owen (Grugan Arfon) a dyma 'nglustia i'n codi oherwydd fy hen nain oedd Ellen Owen.

Rhywsut dyma gyfuno dwy ochor i'r teulu - cafodd Elin ni ei henw am fod gwraig Syr Owen Edwards yn Elin a'm hen Nain innau'n Ellen. Clywed Mari Ellis yn sôn am lyfr Grugan Arfon 'Merched Enwog Cymru' - rhuthro i nôl fy nghopi i aphori tipyn ynddo a chlywed hefyd fel y byddai fy hen Nain yn cyfrannu'n gyson i'r Cymru Coch - a dyna gysylltiad eto â'r ddau deulu.

Erbyn hyn roedd fy nychymyg ar dân a dyma fynd i chwilota i'r bocs lluniau teuluol i atgoffa fy hun o'r 'amseroedd difyr gynt' pan awn yn blentyn i dŷ Nain ym Mryngwenallt, Y Groeslon - cartref Grugan Arfon cyn hynny. Dyma ddod o hyd i linyn gydiol arall sef llun bach, wedi melynu gan amser, o fy mam yn un o wersylloedd cynnar yr Urdd yn Llangollen wrthi hi'i gorau glas yn tynnu rhaffau pabell - o graffu, pwy sy'n tynnu yn y pen arall ond Syr Ifan a Lady Edwards. Rhyfedd o fyd yntê!.

Erbyn yr ymddengys y llith yma byddaf ar fy nhrydedd ymweliad a'r lle 'na nad oes neb eisiau i mi sôn amdano! Rwy'n ffyddiog y caiff fy nychymyg yno hefyd ddigon i freuddwydio amdano, a bydd y profiadau yno yn fwyd i'r enaid am lawer blwyddyn. Digon tebyg, er nad yw pawb yn gwirioni'r un fath, yr ildiaf i'r demtasiwn o rannu rhai o 'mhrofiadau a chi - wedi imi ddod yn ôl.

Cofiais wedyn o ddyfnderoedd pell y cof i Mam son wrthai, iddi pan yn blentyn gael ceiniog gan Syr O.M. rywdro pan iddi ar ochor y lôn yn Y Groeslon ei gyfarwyddo ar ei daith i Garmel. A oes sail i'r stori tybed? Dyma dreulio gweddill y dydd yn pori yng nghyfrolau Syr O.M. Edwards. Cefais flas ar ei hanes yn teithio trwy hen dre Pwllheli ar ei ffordd i Garn Fadryn. Yna dyna ddod ar draws ei ysgrif "O Ddinas Dinlle i Ben Carmel". Tybed a oes cysylltiad rhwng stori fy mam a'r dyfyniad yma pan y cerddai Syr O.M. Edwards drwy'r Groeslon "....syllwn ar ambell enw tŷ - 'Angorfa' (cartref Dr. John Gwilym Jones - cymydog i Mam) ...clywais droeon bod plant ardaloedd y chwareli yn hyfion, ond nid felly y mae ar y ffordd hon beth bynnag. Plant bach boneddigaidd a gyfarfum, parod eu hateb, ond hollol foesgar..."

Drannoeth derbyniais lythyr gan y Dr. John Gwilym Jones yn dweud iddo yntau glywed sôn am fy hen Nain ar 'Merched yn Bennaf'. Ffoniais innau ef yn syth a chael sgwrs ddifyr. Cofiai fy hen Nain ac es innau 'mlaen i ddweud hanes fy niwrnod difyr wrtho yn pori yng nghyfrolau Syr O.M.Edwards. Pan grybwyllais stori fy mam, i'm mawr syndod rhoddodd fwy o gig a gwaed ar y stori - ei fod yntau yn ogystal â fy mam ac un neu ddau arall yn chwarae'r tu allan i gapel Gosen,Groeslon pan ddaeth Syr O.M.Edwards ar eu gofyn am gyfarwyddyd. Rhyfedd - rhyfedd o fyd!

Mewn man arall, sylwi ar ddisgrifiad Syr O.M.Edwards o Bodiwan, y Bala. "Ar y rhiw acw y gwelais Michael D. Jones yn ei het befar lwydwen...ac aeth fy meddwl i ar grwydr pell at y fan y llofruddiwyd Llwyd ab Iwan yn yr Andes..." Dyna gyfle gwych i minnau droi'r stori.

**********************************

YSGOL FEITHRIN Y WAUN

B O R E   C O F F I

a Stondinau Amrywiol

yng Nghanolfan Gymdeithasol y Waun (King George Vth Drive)

Bore Mercher, 11 Tachwedd

am 10.00 a.m.

Tocyn: 25c.

**********************************

CYMDEITHAS SHIR GÂR

Bydd Noson o Garolau a Darlleniadau o dan nawdd Cymdeithas Shir Gar Caerdydd yn y Tabernacl ar nos Fercher, 9fed o Ragfyr, am 7.30. Croeso cynnes i Gymry'r ddinas.

Cynhaliwyd cyfarfod byw iawn yng Nghapel Ebeneser i dystio i'r angen am addoli ar y Sul a hyn wedi codi yn wyneb trefniant Clwb Rygbi Cymry Caerdydd i gynnal Sesiynau Hyfforddi ar fore Sul i fechgyn bach dan 11 oed.

Penderfynwyd gofyn i'r Prifathrawon yn yr Ysgolion Cymraeg newydd i ddod i'r adwy ac i geisio trefnu hyfforddi'r bechgyn ym medrau sylfaenol y gêm rygbi a hynny yn ystod amser cinio, ar ôl yr ysgol neu ar fore neu brynhawn Sadwrn. Penderfynwyd hefyd gofyn i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd ailystyried amseru'r sesiynau hyfforddi ac os oedd y Prifathrawon mewn cyfyng gyngor ynglŷn ag athrawon i gynorthwyo'r plant efallai y gellid cynnig help llaw iddynt.

Disgwylir eu hymateb i'r cynigion cyn bo hir.

---

Doedd dim angen i chi fod yn aelod o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru i fod wedi mwynhau'r noson werinol a gynhaliwyd yng Nghapel Ebeneser, Stryd Siarl nos Wener, Medi 25. Trefnwyd y noson gan bwyllgor Alawon Gwerin yr Wyl Gerdd Dant a gynhelir yn Neuadd y Ddinas ar Dachwedd y 7fed. Dr. Meredydd Evans oedd yn arwain, ac yn ei ffordd ddeheuig ei hun, rhannodd Mered ei wybodaeth eang o gefndir yr alawon a ganwyd â'r gynulleidfa. Llywiodd y cyfan mor ddi-ffwdan nes i'r amser hedfan. Roedd 'na artistiaid o fri yn diddanu - Dafydd Idris, Côr y Swyddfa Gymreig, Lowri Ffrancon, Côr Cerdd Dant Merched y Garth, Plant Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd a'r Diliau. O ganlyniad roedd y rhaglen yn un amrywiol, yn ymestyn o Ganu Gwerin, trwy unawdau ar y delyn i Gerdd Dant - rhywbeth at ddant pawb fel petai. Roedd pawb yn amlwg yn mwynhau, a hyd yn oed y di-Gymraeg oedd yn y gynulleidfa yn medru gwerthfawrogi dawn yr artistiaid.

Yr argraff sy'n aros ym meddwl dyn yw'r golud anhygoel sydd gennym fel cenedl, ac y byddai'n dda cael nosweithiau tebyg eto yn y ddinas. Roedd Capel Ebeneser yn lle delfrydol i gynnal y noson, a bu awdurdodau'r eglwys honno mor garedig a rhoi benthyg y capel yn rhad ac am ddim fel cyfraniad tuag at yr Ŵyl Gerdd Dant. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson a gobeithio y bydd yr un llwyddiant ar yr Ŵyl ar Dachwedd y 7fed.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU

Roedd capel Ebeneser, Charles St. yn rhwydd lawn nos Fawrth, Hydref 13eg, i Gyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Beiblau.

Arweiniwyd mewn defosiwn gan y Gweinidog, y Parch. Geraint Tudur. Fe gafwyd datganiad swynol iawn gan gôr yr Eglwys a'r unawdydd Miss Llinos Williams o'r emyn modern, 'Diolch i'r Iôr'.

Yn absenoldeb Ysgrifennydd Cymru o Gymdeithas y Beiblau, y Parch. Peter Richards, fe ddangoswyd ffilm ar waith y Gymdeithas yn Affrica. 'Freedom in their Souls'. Ar ôl y ffilm talwyd y diolchiadau gan Mrs. D.T. Evans, Minny St.

Wedi canu emyn heidiodd y dyrfa lawr i'r Festri i yfed paned o goffi ac i brynu wrth y gwahanol stondinau.


Roedd yn hyfryd iawn cael cwrdd fel hyn a'n cyd-Gritnogion o gapeli ac eglwysi eraill y ddinas yn Gymry ac yn Saeson. Diolch fod y gwaith o ledaenu'r Efengyl ymhob iaith trwy'r byd yn medru dod a Christnogion Caerdydd at ei gilydd am un noson beth bynnag.

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Mrs. Valmai Davies am ei holl waith yn trefnu'r noson mor ardderchog. Roedd pawb yn flin na allai Mrs. Davies fod gyda ni oherwydd anhwylder. Dymunwn adferiad buan iddi.

Eirlys Davies.



Un o'r cwsmeriaid yn ymweld a Siop Taflen - y siop lyfrau leiaf yn y byd.



Llongyfarchiadau i Mr. Gwilym Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbeina, ar gael ei ddyrchafu'n Llywydd y Mudiad Meithrin. Mae pawb sy'n gwybod am waith di-flino Gwilym yn cenhadu dros yr Ysgol Feithrin yn Rhiwbeina ers blynyddoedd maith a'i waith mawr yn cynhyrchu'r papur MEITHRIN i'r Mudiad, yn gwybod bod hwn yn benodiad teilwng iawn. Ryn ni fel Pwyllgor y Dinesydd yn ddiolchgar iddo am bob cyfraniad ac yn gwybod hefyd mai trwyddo ef y cawn gyfraniad ymarferol oddi wrth Bwyllgor y Dysgwyr dro ar ôl tro. Pob dymuniad da iddo yn y swydd bwysig hon eto.

CANTORION CREIGIAU

Cafodd Cantorion Creigiau fis Hydref prysur iawn. Ar y 3ydd o'r mis roeddynt yn cystadlu yn Eisteddfod y Glowyr ym Mhorthcawl. Daethant yn ail yn y gystadleuaeth.

Buont yn cymryd rhan mewn dau gyngerdd llwyddiannus iawn. Ar yr 8fed o Hydref roeddynt mewn cyngerdd yn Ysgol y Twyn, Caerffili, ac yna, ar yr 21ain, yn Eglwys St. Teilo, Woodville Road, yma yn y brifddinas.

Bydd mis Tachwedd yr un mor brysur gan y byddant yn canu mewn cyngerdd ym Mhontarddulais ar y 14eg o'r mis, ac yna, ar yr 17eg yn Ysbyty Rhydlafar. Bydd y cyngerdd yma yn dechrau am 8 o'r gloch.

Mae'r Gyfeilyddes newydd, Miss Katie Burnette, wedi setlo i lawr yn ardderchog efo'r Côr, ac roedd ei pherfformiadau yn Eisteddfod y Glowyr a'r Cyngherddau yn rhagorol iawn.

# CYMDEITHAS Y DYSGWYR

Nos Wener, 6 Tachwedd, 8 p.m.

NOSON GWIN A GWIN, TWMPATH A DISCO

yn Neuadd Chwaraeon Ysbyty'r Waun

Tocynnau: £2.

............

Nos Wener, 13 Tachwedd

CYSTADLEUAETH BADMINTON

............

Nos Lun, 16 Tachwedd, 8 p.m.

PEINT A CHÂN

yn y Cross Inn, Gabalfa

(Mynediad yn rhad ac am ddim)

............

Nos Wener, 11 Rhagfyr, 8 p.m.

PARTI NADOLIG A DISCO

yn y Cross Inn, Gabalfa

Tocynnau: £1.50 yn cynnwys Bwffe

..............

ESTYNNIR CROESO CYNNES I DDYSGWYR A CHYMRY CYMRAEG I'R NOSWEITHIAU HYN.

Tocynnau:

Linda Moran (562077)
Marged Tomos (755944 (Est.2643) yn ystod y dydd)
Alun Treharne (30605)

EISTEDDFOD DYSGWYR MORGANNWG A GWENT

Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd

Nos Wener, 19 Mawrth, 1982, am 7.00 p.m.

Cysyllter â: Huw Powell, 18 Bishops Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn:60823)

# TWM A RHIANNON...

Roedd neuadd Ysgol Glantaf yn llawn i'r ymylon pan aeth y Dinesydd draw i weld cynhyrchiad y noson gyntaf o 'Twm'. Deallai fod pob tocyn wedi mynd ar gyfer yr ail noson. Mae hyn yn ddealladwy, wrth gwrs, achos mae perfformiadau ysgol yn sicr o ddenu'r rhieni i weld eu plant yn eu mwynhau eu hunain ar lwyfan. Rwy'n siŵr i'r cynhyrchiad yma, hefyd, ddenu llu i weld gwaith Cymraeg gan bobl ifanc y ddinas, ffrwyth yr addysg newydd gyffrous sy'n ysgubo drwy'r strydoedd.

Daeth yn amlwg ymron o'r cychwyn fod y cwmni brwdfrydig hwn o bobl ifanc ac athrawon wedi gorfod ymgodymu â'r amhosibl, sef perfformio math arbennig o gynhyrchiad mewn math amhosibl o neuadd gyda diffyg cyfleusterau a lle amlwg. Ar ddiwedd y noson, yr hyn a safai yn y cof oedd y mynych seibiannau pan gerddai tai ac aelwydydd a cherrig Celtaidd a mynegbyst o gwmpas wrth i olygfeydd byrion gael eu newid.

Mae'r math yma o ddrama'n boblogaidd iawn erbyn hyn, yn bennaf, efallai, oherwydd dylanwad y teledu. Pan fo digon o le i'w gael, gellir gosod y golygfeydd yn gelfydd hwnt ac yma ar lwyfan a defnyddio cynllun o oleuo i'w dwyn i'r ddrama yn eu tro. Ni ellid gwneud hynny yma ac wedi i'r plant orffen "actio" rhewai popeth yn sydyn nes i'r ail set gael ei gosod. Oherwydd hyn, collwyd y llyfnder sy'n bwysig ar gyfer cynhyrchiad o'r fath.

Mae'n hawdd edrych yn ôl, ond wrth fanylu ar y rhaglen a gweld bod ynddi ddau ddwsin o olygfeydd gwahanol, teimlai dyn y gellid bod wedi toddi rhai i'w gilydd. Er enghraifft, roedd y gyntaf ar sgwâr Tregaron, yr ail yn y wlad, yn ymyl Tregaron (nid, nepell, fel y dywaid y rhaglen - ystyr nepell yw "pell") a'r drydedd yn ogof Twm Siôn Cati. O gofio mai twll bychan, da i ddim yw ogof Twm ac mai lle bach iawn fyddai sgwâr y pentref yn nyddiau Twm, gellid bod wedi defnyddio goleuo 'n unig yma i ddatblygu'r stori.

Ymdrechai'r plant yn galed gyda'u rhannau gan ddefnyddio cyfrwng a oedd yn ddigon anodd iddyn nhw ar brydiau. Codai pethau i dir uwch yn syth pan ddeuai cyfle i ganu am deimlad. Roedd gwefr yn aml yn y miwsig a phair hyn i rywun deimlo y byddai drama gerdd wedi bod yn fwy llwyddiannus yn y fath le cyfyng. Barn bersonol yw hon, ond teimlaf na all plant o'r oed yma fod ar eu gorau byth wrth "actio pobol mewn oed". Yn eu maes nhw'u hunain, gallant fod yn ardderchog a chan mai cymeriad lledrith hollol yw'r lleidr, Twm, gellid bod wedi tynnu llawer mwy ar y dychymyg heb amharu ar synnwyr hanes neb.

Gyda llaw, bu diawl y wasg yn brysur yn y rhaglen a ddarllenais i. (Nepell (nid nepell), clôs (clos), Ty (tŷ), Eôs (Eos), Neuadd y Dre, Sgwâr y dref ac ati.

Does ond gobeithio y caiff y cwmni gyfleusterau gwell yn y man. Gellid teimlo drwy'r adeg fod yma dalent i'w defnyddio. Disgleiriai ambell un yng nghanol y cyfyngiadau a roddwyd arnynt gan eu llwyfan. Roedd yn amlwg fod pob un yn mwynhau pob munud.



Ar ddechrau'r mis, bu dau gynhyrchiad diddorol yn Y Sherman, sef 'Rhiannon' gan griw o fyfyrwyr o goleg Aberystwyth a 'Dau', gan Siwan a Bethan Jones, drama sy'n seiliedig ar un o afiechydon y meddwl, personoliaeth ddeublyg.

Yn yr Arena yr oedd y perfformiadau ac roedd yn dda gan Y Dinesydd weld y seddau'n orlawn ar gyfer cynhyrchiad Cymraeg am y tro cyntaf ers amser maith. Roedd yn dda, hefyd, gweld mai pobl ifanc oedd y rhan fwyaf ohonyn nhw.

Cymysglyd oedd y croeso a gafodd 'Rhiannon' er bod ôl graen a chryn ofal ar y cynhyrchu. Y broblem fwyaf, efallai, oedd y ffaith nad oedd llawer o'r gynulleidfa yn ddigon cyfarwydd â'r rhannau hynny o'r chwedlau gwerin y seiliwyd Rhiannon arni i fedru gwerthfawrogi sawl cyfeiriad cynnil. Llwyddodd y cwmni'n ardderchog i greu "blas y cynfyd" lledrith ac urddasol gyda'r llefaru a'r symud. Câi'r gynulleidfa fwy o hwyl, pan oedd y meimio'n fwy amlwg a'r wynebau'n cael mwy o gyfle i fynegi teimladau.

## a Bethan a Siwan

Cynhyrchiad hynod ddiddorol oedd hwn, un gwerth ei gael. Pan ddaw S4C (gobeithio) i'n haelwydydd gyda phob math o gynyrchiadau a wnaiff ein gorffennol yn fwy cyfarwydd i ni, y mae'n siŵr y bydd croeso mwy cyffredinol i waith arbrofol, pwysig fel hwn.

Mae dyn yn mynd yn llai parod i fentro i sylwi ar yr ail gynhyrchiad a gafwyd trwy ddychymyg Siwan a Bethan. Roedden nhw'n mentro wrth geisio gosod darn o afiechyd meddwl ar lwyfan. Ers tro byd rydym wedi gosod afiechydon meddwl i gyd mewn un pentwr, gyda'r label, "Ddim yn gall". Camgymeriad yw hyn wrth gwrs achos mae afiechydon meddwl yn niferus a chymhleth. Ar ben y cyfan, cred y werin yw mai'r bersonoliaeth ddeublyg yw'r un fwyaf peryglus gyda meddwl dyn yn hollti'n ddau.

Gyda'r hanner gwybodaeth peryglus yma yr wynebai nifer ohonom y perfformiad, rwy'n siŵr, er y gwyddem mai tasg anodd fyddai ceisio dangos dau bersonoliaeth mewn drama rhwng dau dros gyfnod mor fyr.

Cafwyd cipolwg ar rai o nodweddion yr afiechyd, sef manylder a gofal anghyffredin ac ati, ond, er gwaethaf ymdrechion y ddwy actores, datblygodd rhannau o'r gwaith i fod yn bur hwyliog a digri. Ni chafwyd mo'r artaith meddyliol sy'n gysylltiedig mor aml a'r afiechyd (o leiaf yn y meddwl cyffredin). Mae'n anodd gwybod paham. Awgrymodd rhai yn y cyntedd ar ddiwedd y perfformiad mai'r ail bersonoliaeth a amlygai Siwan oedd y Blodeuwedd a gyflwynodd i ni gyda chryn gamp yn ystod eisteddfod Caerdydd. Gwelent eco yn y perfformiad, ac i raddau, roedd hyn yn wir. Gan ei bod yn fwy dieithr i gynulleidfa'r ddinas, roedd perfformiad Bethan yn argyhoeddi mwy.

Mae "disgwyl rhywbeth a chael rhywbeth arall" yn hen broblem i gynulleidfa. Ni ellid llai nad edmygu'r ddwy ferch ifanc am iddyn nhw ymgymryd â thasg mor anodd.

# MYNYDD BYCHAN? WAUN OT

Gwelais ddau gyfeiriad yn rhifyn Hydref y 'Dinesydd' at Ysgol Feithrin y Waun yng Nghanolfan Gymdeithasol Y Waun (King George Vth Drive). Gwelais hefyd gyfeiriad yn Crystal Glen, Y Waun. Enw Saesneg y rhan o Gaerdydd lle y mae King George Vth Drive a Crystal Glen yw "the Heath". Pa gyfiawnhad sydd dros alw "Y Waun" ar y rhan hon yn Gymraeg? I gael yr ateb, gadewch inni droi at "Cardiff, A History of the City" gan William Rees, cyhoeddwyr Cyngor y Ddinas. Yn wynebu t. 21 o'r llyfr hwn y mae map o Arglwyddiaeth Caerdydd yn yr Oesoedd Canol. Yma nodir "The Great Heath", sy'n ymestyn o Lystalybont i Lanishen, ac i'r cyfeiriad arall, yn rhannu ffin a "The Little Heath". Pa un o'r rhain yw'r Heath presennol ac a oes enwau Cymraeg arnynt? Ar d. 56, wrth sôn am siartr a roddwyd i fwrgeiswyr Caerdydd ym 1340, dywed William Rees: "The townsmen were confirmed in their rights of common for their cattle and of turbary on the Little Heath, the Waun Ddyfal (near the Woodville area) and on the Great Heath (on Mynydd Bychan) outside the boundary of the town and extending over a wide area to the north on both sides of the present Heathwood Road". Ar d. 189, ceir sôn am ras ceffylau ym 1765 a dywedir "...when on 2 September of that year an exciting race was run on the Great Heath (Mynydd Bychan)". Ar d. 147 ceir "...the gibbet in the Gallows Field at the town boundary at the Waun Ddyfal (or Little Heath)". Ar d. 20 dywedir ymhellach "City Road... was still in the mid-19th century known as Heol y Plwcca (Welsh, the road of the plot) probably in reference to the Gallows plot, plwcca halog, which stood at the junction of Albany Road and City Road". Ymestynnai'r Waun Ddyfal, felly, o gyffiniau Woodville Road i lawr heibio i Albany Road. Nid the Little Heath (y Waun Ddyfal) yw'r rhan o Gaerdydd a elwir the Heath heddiw felly ond The Great Heath (Y Mynydd Bychan). Ar Y Mynydd Bychan y mae Ysbyty'r Brifysgol a'r Ganolfan Gymdeithasol felly ac ar Y Waun Ddyfal y mae capel Cymraeg Heol y Crwys. Ar Y Mynydd Bychan hefyd y mae Crystal Glen.

Hyd y gellais ddarganfod, y mae'r enw 'Y Waun Ddyfal' wedi mynd i ebargofiant, ysywaeth, ond ni ddiflannodd yr enw 'Y Mynydd Bychan'. Yn Nantgarw y'm ganed fi, pentref Cymraeg pan oeddwn i'n blentyn ac yr oedd yr enw Y Mynydd Bychan mor hysbys imi a'r pentrefwyr eraill ag oedd enwau Yr Eglwys Newydd a Llanisien a Threlai. Mae arnaf ofn bod yn rhaid rhoi'r bai ar Gymry dyfod Caerdydd am newid yr hen enw byw Y Mynydd Bychan i Y Waun, enw a gafwyd, mae'n dra thebyg, o'r geiriadur.

Ysgrifennais lith rai blynyddoedd yn ôl i'r Dinesydd ar fater Y Mynydd Bychan ar ôl gweld cyfeiriad at 'Ysbyty'r Waun', y lledrith hwnnw, a gwnaeth Mr. Raymond Edwards ei orau glas, tra'r oedd yn olygydd, i ddenu darllenwyr 'Y Dinesydd' i arddel yr enw Cymraeg cywir 'Y Mynydd Bychan' ond yn hollol ofer, fel y dengys rhifyn Hydref y papur. Beth yw'r rheswm? Dichon fod peth bai ar y Cyfryngau. Clywir cyhoeddwyr yn sôn, byth a hefyd, am 'Y Waun' ac 'Ysbyty'r Waun', lle y dylent ddweud 'Y Mynydd Bychan' ac Ysbyty'r Mynydd Bychan. Cynhyrfwyd fi rai misoedd yn ôl i ysgrifennu at Mr. Arwel Elis Owen a chefais ateb yn dweud bod y staff wedi cael cyfarwyddyd i ddweud 'Ysbyty'r Brifysgol' am yr ysbyty. Popeth yn iawn am hynny ond yr wyf wedi clywed Mr. Emrys Jones a Mr. Huw Llywelyn Davies yn para i sôn am 'Y Waun'. Oni ddylem allu disgwyl i staff y Cyfryngau roi arweiniad mewn materion fel hyn, ac yn arbennig mewn ardal fel Caerdydd lle y drylliwyd cymaint ar draddodiad Gymraeg yr ardal eisoes?

Efallai y dywed rhai ohonoch, 'Y Mynydd Bychan, Y Waun. Mae'r ddau'n enwau Cymraeg. Beth yr ots?" Gofynnaf i chwi edrych ar y peth o safbwynt personol. Mae llawer ohonoch yn bobl ddyfod i Gaerdydd a'ch hen fro yn annwyl iawn gennych, fel y mae Cwm Taf a Chaerdydd i rai ohonom ninnau. Sut y teimlech petawn i a channoedd lawer o rai tebyg imi yn dylifo i'ch bro enedigol chwithau a newid yr enwau traddodiadol wrth ein mympwy, gan anwybyddu'r trigolion cynhenid yn llwyr? Oni fyddech yn gloesi?

Yn yr un rhifyn o'r Dinesydd, gwelais rywbeth perthnasol, sef llythyr gan arweinydd Grŵp Statws Cymdeithas yr Iaith yng Nghaerdydd, yn achwyn am amharodrwydd Cyngor Caerdydd i fynd ymlaen i roi enwau Cymraeg ar y strydoedd. Ond y mae mater Y Mynydd Bychan yn dangos nad ar y Cyngor y mae'r bai i gyd. Sawl un o ddarllenwyr 'Y Dinesydd' sy'n defnyddio'r enwau sydd ar y strydoedd ac ardaloedd Caerdydd eisoes a'u defnyddio'n iawn? Gwelais lythyr dro'n ôl yn y Faner a'r Cymro yn ceryddu pennaeth S4C am ddefnyddio 'Heol y Santes Fair' mewn hysbyseb yn lle'r enw 'Heol Eglwys Fair' sydd wedi bod uwchben Banc Iwerddon ers deuddeng mlynedd. Y mae angen ymgyrchu i ddarbwyllo, nid Cyngor y Ddinas yn unig, ond Cymry Cymraeg y ddinas - hyd yn oed y Cymry da.

Beth am i'r Ysgol Feithrin a gamenwyd cyhyd, ddechrau'r ymgyrch ac ychwanegu at y ddyled sydd ar bawb ohonom iddi eisoes trwy ymgyfenwi o hyn allan yn "Ysgol Feithrin y Mynydd Bychan"?

Ceinwen H. Thomas.

---

CROESO I GAERDYDD

Croeso cynnes i Ronnie a Wenna Williams a symudodd i Heol Gorllewin y Llyn, Parc y Rhath, gyda'u dau blentyn, Emyr a Nerys. Dyma un arall o Arolygwyr ei Mawrhydi wedi symud i fyw i'n plith a Mathemateg yn bwnc iddo. Bu'r ddau yn y coleg ym Mangor ac fe fydd llawer yn cofio am Wenna Thomas fel roedd hi yn y cyfnod hwnnw yn actio ac yn adrodd yn yr Eisteddfodau. Fe fu hi yn y cwmni gwreiddiol yn actio' 'Tad a Mab', gwaith John Gwilym Jones, gydag Alun Evans ac Elwyn Jones ac eraill. Pob dymuniad da iddynt wrth ymgartrefu yn ein plith.


---

Croeso hefyd i'r Parch a Mrs. R. Hugh Evans, 115 Coed yr Ynn, Rhiwbeina. Fe fydd pawb sydd wedi profi o wres pregethau'r Parch Hugh Evans yn falch dros ben o wybod ei fod ef wedi dod yma i Gaerdydd atom ni o gylch Llwynhendy. Maen nhw wedi symud i Riwbeina i fyw ac wrth gwrs fyddan nhw ddim yn bell oddi wrth Huw ac Adelina yn Llysfaen a'u hwyrion annwyl, Julia a Michael.

---

Croeso cynnes iawn i Carwyn James draw i ochor arall Caerdydd ac i Landaf, Ffordd y Tyllgoed. Mae pawb yn yr ardal yn falch o'i weld ond yn methu a deall beth a wnaeth i'w goes wrth ei weld yn hencio'n hamddenol heibio i Rookwood.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 18



**Ar Draws:**

8. Delwau H.E., mewn gwisg arall, yn dynodi'r aelod mwyaf defnyddiol a chroesawgar (8)
9. Iaith goch? (6)
10. Aeth dwy nyrs a-ti i greu anhyblygrwydd (11)
11. Enw ar griw o filwyr (a chythreuliaid) (3)
13. Llesg yw, ond mae'n troi â gwên (5)
15. Rwy'n helpu yn ôl hen arfer y Cymry (9)
17. Diofalwch y "gwyliwr ar y tŵr" (4,11)
19. Llestr tra defnyddiol i'r oes o'r blaen (3,6)
21. Peri (5)
23. Dicter (3)
24. Ennill dy ddrws, a mwynder yn dod allan ohono (11)
27. Trafaelu yn ôl o'r mart, ag wy dros ben (6)
28. Yr hen Bort Talbot (8)

**I Lawr:**

1. Rwy'n ategu! (8)
2. Grawn, a phwdin dydd Sul (4)
3. Y fflŵr a geir mewn lle heblaw Dinbych (5)
4. Gwnewch i gŵn byd gyfarth er dangos annhebygrwydd wrth gymharu pethau (15)
5. X gofyn? (9)
6. Gwrandewch! (3)
7. Cardota ar ddisberod yn Aberge-le (6)
12. Brassicae'r garddwr (6)
14. Gofidus iawn yw taith R.S. yn ei ddryswch (6)
16. Pennog, ond yn sicr, nid o Nefyn (9)
18. Gwahanol arwerthiannau (8)
20. "Fy nghymorth a ddaw ...... yr Arglwydd" (6)
22. Os defnyddi di fethod arall, fe gei di'r ateb yn ddi-ffael (5)
25. Nawr, mae hyn o chwith (4)
26. Ici, à Paris! (3)

**DATRYSIAD RHIF 17**

Ar Draws: 1. Pob twll a chornel; 9. Effeithiwyd; 10. D-weu-D; 11. Ennyd; 12. I Laneirwg; 13. Ifor Hael; 15. Cynnull; 18. Di-wallu; 20. Awdurdod; 23. O India bell; 24. Twr-ci; 25. Anial; 26. Droedfeddi; 27. Newyddiadurwyr

I Lawr: 1. Pregethiad; 2. Breinio; 3. Wrthyd; 4. Arwriaeth; 5. Oedran; 6. Nid felly bu; 7. Loetran; 8. Ffedog; 14. Hollti blew; 16. Lledrithiwr; 17. Pwyllgora; 19. Wincian; 21. Dŵr berw; 22. Y bedydd; 23. Oracl; 24. Tadau

************************************

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Rhagfyr at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, erbyn yr 20fed o Dachwedd, 1981. (Tel. 753625).

************************************

# Y CALENDR

**Tachwedd**

6, Gwener, Noson Gaws a Gwin, Twmpath a Disco, yn Neuadd Chwaraeon Ysbyty'r Waun, yng ngofal Cymdeithas y Dysgwyr.

7, Sadwrn, Yr Ŵyl Gerdd Dant, Neuadd y Ddinas.

11, Mercher, Bore Coffi a Stondinau Amrywiol, Ysgol Feithrin Y Waun yng Nghanolfan Gymdeithasol Y Waun (King George Vth Drive), 10.00 a.m.

13, Gwener, Cystadleuaeth Badminton o dan ofal Cymdeithas y Dysgwyr.

13, Gwener, Cyfarfod yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg yn Nhŷ'r Cymry; 7.30 p.m.

14, Sadwrn, Ffair Nadolig Plaid Cymru, Neuadd y Ddinas.

16, Llun, Peint a Chân yn y Cross Inn, Gabalfa, 8 p.m., o dan ofal Cymdeithas y Dysgwyr.

28, Sadwrn, Noson Gwin a Chaws a Chân, Ysgol Feithrin y Waun, yng Nghanolfan Gymdeithasol y Waun (King George Vth Drive), 8 p.m.; Tocynnau: £1.75.

27, Gwener, Cyfarfod yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg yn Nhŷ'r Cymry; 7.30 p.m.

**Rhagfyr**

5, Sadwrn, Ffair Nadolig Ysgol Glantaf.

11, Gwener, Parti Nadolig a Disco yn y Cross Inn, Gabalfa, 8 p.m.; Tocynnau: £1.50; O dan ofal Cymdeithas y Dysgwyr.

11, Gwener, Cyfarfod yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg yn Nhŷ'r Cymry; 7.30 p.m.

12, Sadwrn, Ffair Nadolig, Ysgol Gymraeg Coed y Gôf.

************************************

PLAID CYMRU
(GOGLEDD ORLLEWIN CAERDYDD)

**Tachwedd 12:**

Ymgyrch Gymraeg dros Hawliau Suful a Gwleidyddol. Y Siaradwr fydd Philip Thomas.

**Rhagfyr 10:**

Adroddiadau'r Blaid
Siaradwyr fydd O.J. Thomas ac Ifan Wyn Williams

Cynhelir y cyfarfodydd yng Nghanolfan Gymdeithasol Ystum Taf, Y Parade, Eglwys Newydd. 7.45 p.m.

************************************